Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymateb y Llywodraeth i'r Asesiad Gallu i Weithio:

## Ymgynghoriad Gweithgareddau a Disgrifyddion

CP 973

# Ymateb y Llywodraeth i'r Asesiad Gallu i Weithio:

## Ymgynghoriad Gweithgareddau a Disgrifyddion

Cyflwynwyd i'r Senedd
Gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
Trwy orchymyn Ei Fawrhydi

Tachwedd 2023

CP 973

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn a fformatau hygyrch ar-lein o'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/work-capability-assessment-activities-and-descriptors

Anfonwch unrhyw geisiadau am fformatau hygyrch eraill o'r cyhoeddiad hwn at WCAActivitiesandDescriptors.GovernmentResponse@dwp.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4567-6

E03016885 11/23

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cefndir a Chrynodeb Gweithredol** | **3** |
| **Cefndir WCA a Sut y Gwnaethom Ymgynghori** | **9** |
| **Beth ddywedasoch wrthym a'r newidiadau a wnawn** | **12** |
| **Sut rydym yn bwriadu gweithredu'r newidiadau hyn** | **22** |

# Cefndir a Chrynodeb Gweithredol

1. Rydym yn benderfynol o gael system les sy'n annog ac yn cefnogi pobl i mewn i waith, tra'n darparu rhwyd ddiogelwch hanfodol i'r rhai sydd ei hangen fwyaf.

2. Yn y dyfodol, byddwn yn dileu'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) ac yn cyflwyno dull newydd personol wedi'i deilwra ar gyfer cymorth cyflogaeth, gyda'r nod o helpu pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i gyrraedd eu potensial llawn. Gwnaethom nodi hyn yn "Transforming Support: The Health and Disability White Paper" ym mis Mawrth 2023 ac mae'n parhau i fod ein cyfeiriad i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig sicrhau bod yr asesiad yn cyflenwi'r canlyniadau cywir cyn y newidiadau hyn yn y dyfodol. Gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i'r WCA at y diben hwn.

**Yr hyn y gwnaethom ymgynghori arno:**

3. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 5 Medi 2023 ar weithgareddau a disgrifyddion WCA. Y WCA yw sut yr ydym yn asesu gallu pobl i weithio a'r cymorth a gânt am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'r elfen sy'n gysylltiedig ag iechyd UC (UC). Mae gan yr WCA 3 chanlyniad posibl:

   - Ffit i Weithio (FFW): sy'n golygu nad oes hawl i ESA neu swm UC sy'n gysylltiedig ag iechyd. Efallai y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd chwilio am waith.
   - Gallu cyfyngedig i weithio (LCW): sy'n golygu efallai na fydd hawlydd yn gallu chwilio am waith yn awr ond rhoddir cymorth iddynt i'w helpu i baratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol.
   - Gallu cyfyngedig i weithio a gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith (LCWRA): sy'n golygu na fydd yn rhaid i hawlydd chwilio am waith, na pharatoi ar gyfer gwaith. Mae hyn hefyd yn arwain at gyfradd uwch o fudd-dal ar UC ac ESA.

4. Gwnaethom ymgynghori ar gynigion i ddiwygio rhai o'r gweithgareddau gweithredol a'r disgrifyddion yr WCA, fel bod yr asesiad yn adlewyrchu mwy o hyblygrwydd ac argaeledd addasiadau rhesymol mewn gwaith, yn enwedig gweithio gartref. Nid yw'r gweithgareddau WCA wedi cael eu hadolygu'n gynhwysfawr ers 2011. Mae'n gywir sicrhau bod yr asesiad yn parhau i dargedu cymorth yn deg ac yn effeithiol, yn ogystal â chyflenwi'r canlyniadau cywir i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Gwnaethom ofyn am farn ar ddileu neu newid y gweithgareddau a'r disgrifyddion canlynol, gan mai nhw yw'r rhai mwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan gyfleoedd newydd ar gyfer gweithio hyblyg a gweithio gartref:

   - Symudedd;
   - Absenoldeb neu golli rheolaeth coluddyn/bledren (Ymataliad);
   - Ymdopi ag Ymgysylltu Cymdeithasol oherwydd nam gwybyddol neu anhwylder meddwl (Ymgysylltu Cymdeithasol); a

- Symud o gwmpas.

5. Gwnaethom hefyd ymgynghori ar gynigion i ddiwygio neu ddileu meini prawf Risg Sylweddol LCWRA. Ei fwriad oedd rhoi rhwyd ddiogelwch lle byddai risg sylweddol i iechyd pe na bai gan hawlydd LCWRA. Bwriad y polisi gwreiddiol ar gyfer risg sylweddol oedd iddo gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Fodd bynnag, mae cymhwyso Risg Sylweddol LCWRA wedi mynd y tu hwnt i'r bwriad gwreiddiol. Gwnaethom ofyn am farn ar ddileu neu ddiwygio'r rheolau Risg Sylweddol a sut y gellid cefnogi'r grŵp hwn yn ddiogel pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad:**

6. Cawsom 1,348 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli a'u cefnogi. Trwy ein digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus, dywedodd pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, sefydliadau cymorth ac elusennau wrthym am eu barn ar y newidiadau arfaethedig. Gwnaethant dynnu sylw at yr heriau a brofir gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd wrth gael gwaith, a'r effaith ddwys y mae cyflyrau iechyd yn aml yn ei chael ar allu pobl i weithio. Gwnaethom hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol ag arbenigwyr clinigol, grwpiau cyflogwyr a sefydliadau anabledd ar gynigion yr ymgynghoriad.
7. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth o'r digwyddiadau a'r ymgysylltu cyhoeddus wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn ofalus. Mae'r ymatebion yn mynegi pryder am gynigion yr ymgynghoriad ac awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y potensial ar gyfer anawsterau o'r golled ariannol y gellid eu profi pe bai pobl yn colli'r ychwanegiadau iechyd LCWRA mewn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a Chredyd Cynhwysol (UC). Amlygodd yr ymatebwyr hefyd, er y bu newidiadau i'r byd gwaith, mae cyfyngiadau ar faint mae hyn wedi newid gallu pobl anabl i weithio, neu fynediad at swyddi. Codwyd pryderon hefyd am ofnau pobl o gael eu gosod ar gyfundrefn fudd-daliadau gydag amodoldeb a'r posibilrwydd o sancsiynau. Rydym wedi gwrando ar y pryderon hyn, ac maent wedi dylanwadu ar sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â newidiadau i WCA.

**Y newidiadau y byddwn yn eu datblygu:**

**Cynnig newydd i hawlwyr presennol a aseswyd gyda LCWRA, er mwyn rhoi'r hyder iddynt roi cynnig ar waith:**

8. Rydym am i hawlwyr sydd eisoes wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â LCWRA allu ymgysylltu â chymorth i symud tuag at waith heb ofni ailasesiad. O'r herwydd, byddwn yn **cyflwyno cynnig newydd** - Gwarant Cyfle i Weithio i hawlwyr presennol ar UC ac ESA gyda LCWRA. Bydd y newid hwn yn weithredol o 2025, ar yr un pryd ag y cyflwynir newidiadau WCA. Bydd y newid hwn i bob pwrpas yn diddymu'r WCA ar gyfer mwyafrif helaeth y grŵp hwn, gan gyflwyno elfen allweddol o'n cynigion Papur Gwyn a rhoi'r hyder i bobl roi cynnig ar waith.

9. Bydd y newidiadau hyn yn golygu na fydd bron pob person sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd fel rhai sydd â LCWRA yn wynebu ailasesiad WCA eto. Dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn y bydd ailasesiadau'n digwydd, sef:
   - Pan fydd hawlydd yn rhoi gwybod am newid amgylchiadau yn ei gyflwr iechyd;
   - Os yw hawlydd wedi cael ei ddyfarniad LCWRA am risg beichiogrwydd, neu driniaeth canser lle mae disgwyl i'r prognosis am adferiad fod yn fyrdymor;
   - Os canfuwyd fod gan hawlydd LCWRA o dan y darpariaethau risg newydd; ac
   - Mewn achosion o amheuaeth o dwyll.

10. I'r mwyafrif llethol o hawlwyr UC presennol, mae hyn yn sicrwydd na fyddant yn cael eu hailasesu os ydynt yn ceisio gweithio, ac nid yw'n gweithio allan. Ni fydd hawlwyr ESA sy'n ymgymryd â gwaith a ganiateir yn cael eu hailasesu chwaith. Felly, i'r ddau grŵp, byddwn yn dileu'r rhwystr y gallai ceisio gweithio olygu eu bod yn colli eu hawl i LCWRA.

11. Mae ymchwil yn amlygu pam fydd angen i ni fynd i'r afael â hyn: hoffai un o bob pump o bobl nad oes disgwyl iddynt ymgymryd â pharatoi tuag at waith weithio ar ryw adeg yn y dyfodol pe bai'r swydd a'r gefnogaeth gywir ar gael. Soniodd mwy na hanner y rhai a deimlai y gallent weithio o fewn y ddwy flynedd nesaf am yr ofn o beidio â gallu dychwelyd i fudd-daliadau fel rhwystr i roi cynnig ar waith.[1] Drwy ddileu'r rhwystr hwn, rydym yn benderfynol o roi'r hyder i bobl roi cynnig ar waith a gwireddu eu huchelgeisiau.

12. Byddwn yn cefnogi'r hawlwyr hyn i ddechrau, aros a llwyddo mewn gwaith. Bydd hawlwyr UC sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â LCWRA ac sy'n ceisio gweithio yn elwa o'r Lwfans Gwaith presennol. Mae hyn yn eu galluogi i ennill o leiaf £379 y mis cyn i'r tapr enillion UC fod yn berthnasol.

13. Yn unol â'r rheolau UC presennol, bydd y rhai sy'n aros mewn gwaith ac yn ennill digon i beidio â chael UC bellach yn cael eu hailsefydlu'n awtomatig os nad yw eu swydd yn gweithio allan o fewn 6 mis, ar yr amod nad yw eu hincwm yn rhy uchel. Mae hyn yn caniatáu i hawlydd sydd â phenderfyniad LCW neu LCWRA roi cynnig ar waith ac yna dychwelyd i'r grŵp hwnnw heb asesiad, cyn belled nad yw ei gyflwr iechyd wedi newid.

14. Mae rheolau cysylltu o ran dull newydd ESA (neu ESA cyfrannol) yn caniatáu i hawlwyr sy'n dod oddi ar y budd-dal wneud cais arall o fewn 12 wythnos heb fod angen cael WCA newydd, ar yr amod eu bod yn dweud wrth yr Adran ac nad oes newid arall mewn amgylchiadau. Bydd y rhai sydd ar ESA sy'n seiliedig ar incwm sy'n gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos yn gadael y budd-dal. Er na allant ddychwelyd i ESA sy'n gysylltiedig ag incwm, gallant hawlio UC os ydynt yn gymwys. Ar gyfer hawlwyr ESA sy'n mynd ymlaen i hawlio UC yn dilyn newid amgylchiadau mae eu penderfyniad blaenorol WCA yn cario drosodd ar yr amod nad oes bwlch rhwng terfynu hawliad ESA a bod gwneud cais am UC.

15. Bydd rhaglenni gwirfoddol, fel ein rhaglen Cymorth Cynhwysol newydd ac estynedig, y Rhaglen Partneriaethau WorkWell, Talking Therapies y GIG a'r rhaglen the Individual Placement and Support in Primary Care (IPSPC), yn darparu cymorth integredig a

[1] Work aspirations and support needs of claimants in the ESA support group and Universal Credit equivalent - GOV.UK (www.gov.uk)

phwrpasol i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i'w cefnogi a helpu i symud hawlwyr yn agosach tuag at waith.

16. Bydd y cynnig cymorth hwn yn adeiladu ar ein pecyn eang presennol o gymorth sydd ar gael drwy anogwyr gwaith ac Ymgynghorwyr Gwaith i'r Anabl mewn canolfannau gwaith yn ogystal â thrwy ein partneriaid. Bydd yn helpu pobl i baratoi ar gyfer gwaith a dod o hyd i waith, yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi'r bobl anabl hynny a phobl sydd â chyflyrau iechyd sydd bellaf o'r farchnad lafur.

17. Gan gydnabod ein bod am gymryd pob cam i beidio â dal pobl yn ôl o'r gwaith, byddwn yn newid sut rydym yn disgrifio ein grwpiau budd-daliadau iechyd yn y dyfodol. Ni fyddwn bellach yn cyfeirio at gyfyngiadau pobl a byddwn yn hytrach yn canolbwyntio ar yr hyn y gallant ei wneud. O 2025, byddwn yn dechrau defnyddio termau 'Paratoi tuag at Waith' yn hytrach na 'Gallu Cyfyngedig i Weithio', a bydd 'Grŵp Iechyd' yn disodli 'Gallu Cyfyngedig i Weithio a Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith'.

**Newidiadau y byddwn yn eu gwneud i'r WCA:**

18. Rydym wedi gwrando ar bryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, am y rhesymau yr ydym yn eu hamlinellu, ein barn ni o hyd yw bod newid wedi bod yn y farchnad lafur ers i'r gweithgareddau WCA gael eu hadolygu'n gynhwysfawr ddiwethaf, fel y dangosir gan y cynnydd yn argaeledd swyddi hybrid a gweithio gartref.

19. Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) 'Characteristics of Homeworkers' yn dangos bod cynnydd mawr wedi bod mewn gweithio gartref: dywedodd 40% o bobl eu bod yn gweithio gartref ar ryw adeg yn ystod yr wythnos flaenorol yn y cyfnod rhwng 25 Ionawr a 5 Chwefror 2023. Roedd 44% yn gweithio gartref neu hybrid ar ryw adeg yn ystod yr wythnos rhwng Medi 2022 a Ionawr 2023 o'i gymharu â thua 12% yn gweithio gartref yn 2019. Nododd gweithwyr anabl lefelau tebyg o weithio gartref yn unig (18%) o'i gymharu â'r rhai heb anabledd (16%).[2] Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cwestiynu argaeledd y swyddi hyn. Fodd bynnag, o tua 8 miliwn o swyddi a hysbysebwyd trwy Adzuna ar-lein dros y 6 mis diwethaf (mis Ebrill i fis Hydref 2023), ychydig dros 20% oedd naill ai'n bell neu'n gweithio o bell neu'n hyblyg, o'i gymharu â llai na 4% dros yr un cyfnod amser yn 2016.[3] Amlygodd ymatebion yr ymgynghoriad yr heriau i bobl anabl a'r rhai syln cael budd-daliadau wrth gael mynediad at y swyddi hyn, gan amlinellu'n enwedig sgiliau, sectorau, a lleoliad daearyddol fel rhwystrau.

20. Rydym yn gwybod bod hyblygrwydd yn hanfodol i bobl anabl gael mynediad at gyfleoedd gwaith. Mae ymchwil Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn dangos bod gan dros hanner yr holl weithwyr fynediad at weithio hyblyg, gydag amser fflecsi a gweithio gartref yn benodol yn cynyddu ers 2011.[4] Yn ogystal, o 2024, bydd miliynau o weithwyr yn ennill yr hawl i ofyn am weithio'n hyblyg o'r diwrnod cyntaf (trwy ddileu'r

[2] Characteristics of homeworkers, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[3] Gan ddefnyddio data gan Adzuna roedd yr 8,137,838 o swyddi a hysbysebwyd ar-lein dros y 6 mis diwethaf (Ebr-Hydref), 20.4% naill ai'n bell neu'n hyblyg, o'i gymharu â 3.4% dros yr un cyfnod amser yn 2016.

[4] https://www.cipd.org/uk/knowledge/reports/flexible-working-trends/

cyfnod cymhwyso 26 wythnos presennol) mewn swydd newydd, sy'n rhoi mwy o opsiynau i bobl anabl reoli eu cyflyrau iechyd.

21. Nodwyd yn yr ymgynghoriad sut mae cyfran y canlyniadau LCWRA yn WCA wedi codi'n sylweddol ers i'r gweithgareddau a'r disgrifyddion gael eu hadolygu'n gynhwysfawr ddiwethaf, o 21% yn 2011 i 65% yn 2022. Er y bydd newid demograffig a'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi cyfrannu at y cynnydd hwn, mae'r newid yn llawer mwy na ellir ei gyfrif gan y ffactorau hyn yn unig. Ers 2018, mae taith iechyd y UC a llwyth achosion ESA wedi codi bron i 600,000, gyda dim ond tua 115,000 o'r rhain yn 65 oed a throsodd ac felly gellir eu priodoli i gynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth.[5] Bydd tueddiadau ehangach ym maes iechyd, yn enwedig ers y pandemig, hefyd wedi arwain at gynnydd o ran nifer yr hawlwyr sy'n mynd trwy WCA. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon i esbonio'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael canlyniad LCWRA.

22. Rydym yn gwybod bod gwaith da yn fuddiol i iechyd corfforol a meddyliol, lles a sicrwydd ariannol pobl, ac rydym am sicrhau ein bod yn cymryd pob cam angenrheidiol i gefnogi pobl i mewn i waith.

23. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod ar gyfer rhai hawlwyr sydd â'r cyflyrau iechyd mwyaf difrifol, y gallai hyd yn oed ymgymryd â gweithgareddau paratoi tuag at waith arwain at ddirywiad yn eu hiechyd corfforol neu feddyliol. Pan fyddwn yn bwriadu diwygio'r WCA, byddwn hefyd yn sicrhau y bydd y bobl hynny sydd â'r cyfyngiadau mwyaf difrifol yn parhau i gael eu gwarchod.

24. **O 2025 ymlaen, byddwn yn gwneud y newidiadau canlynol i weithgareddau a disgrifyddion WCA:**

- **Diwygio rheoliadau Risg Sylweddol LCWRA** i ailalinio Risg Sylweddol gyda'i fwriad gwreiddiol ei fod yn cael ei gymhwyso mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Byddwn yn nodi'r amgylchiadau, a'r cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, y dylai Risg Sylweddol LCWRA fod yn berthnasol iddynt. Bydd hyn yn cynnwys amddiffyn a diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys pobl mewn argyfwng a'r rhai sydd â salwch seicotig gweithredol. Byddwn yn gweithio gyda chlinigwyr i ddiffinio'r meini prawf a pha dystiolaeth feddygol sydd ei hangen gan hawlwyr a phobl sy'n ymwneud â'u gofal, er mwyn sicrhau bod y broses yn ddiogel, yn deg ac yn glir.

- **Dileu'r gweithgaredd Symudedd LCWRA** oherwydd bod hyblygrwydd newydd yn y farchnad lafur yn golygu y gall llawer o bobl sydd â chyfyngiadau symudedd ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd wedi'i deilwra a'i bersonoli sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r cymorth cywir. Er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion symudedd mwyaf sylweddol yn cael eu diogelu, byddwn yn cadw'r rheoliadau Risg Sylweddol LCWRA cyfredol ar gyfer iechyd corfforol. Mae hyn yn golygu, lle byddai paratoi tuag at waith yn arwain at ddirywiad yn iechyd corfforol yr hawlydd, y byddent yn dal i fodloni'r cymhwysedd ar gyfer LCWRA. Ni fyddwn yn newid y gweithgaredd neu ddisgrifyddion Symudedd LCW

[5] Mae cyfrolau Asesiadau Gallu i Weithio ESA ac UC ar gael ar Stat-Xplore: https://stat-xplore.dwp.gov.uk

- **Lleihau'r pwyntiau a ddyfarnwyd ar gyfer disgrifyddion Symud o Gwmpas LCW**, oherwydd mae hyblygrwydd newydd yn y farchnad lafur yn golygu bod llai o angen cyrraedd man gwaith, ac felly mae'r cyfyngiadau o ran mynd o gwmpas yn llai o rwystr rhag gallu gweithio i rai pobl. Byddwn yn cadw'r disgrifydd sgôr uchaf, er mwyn diogelu'r hawlwyr hynny sydd â'r cyfyngiadau mwyaf arwyddocaol o dan weithgaredd LCW.

25. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r gwelliannau yn y gweithle modern sydd wedi digwydd ers i weithgareddau a disgrifyddion WCA gael eu hadolygu'n llawn ddiwethaf yn 2011. Hefyd, mae tystiolaeth yn dangos y gall cefnogi pobl i symud tuag at waith ac i mewn i waith fod yn dda i'w hiechyd, lles a'u diogelwch ariannol.

26. Ni fyddwn **yn** gwneud newidiadau i'r gweithgareddau a'r disgrifyddion WCA canlynol:

- **Ni wneir unrhyw newidiadau i Ymataliaeth LCWRA neu LCW**, gan gydnabod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth a oedd yn pwysleisio sut mae anymataliaeth yn effeithio'n ddifrifol ar urddas a lles meddyliol pobl. Nid yw hyblygrwydd yn y gweithle yn ddigonol i reoli natur annisgwyl materion ymataliaeth. Gall materion ymataliaeth fod yn sydyn ac annisgwyl, a all wneud rheolaeth mewn amgylcheddau gwaith neu gartref yn anodd.

- **Ni wneir unrhyw newidiadau i Ymgysylltu Cymdeithasol LCWRA neu LCW**, gan gydnabod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth a oedd yn awgrymu bod bron pob gwaith yn gofyn am ymgysylltu â phobl. O'r herwydd, mae'r cyfyngiadau sylweddol mewn gallu i weithio y mae pobl sy'n sgorio ar y gweithgaredd hwn yn profi yn llai tebygol o gael eu goresgyn gan newidiadau yn y gweithle modern neu fwy o hyblygrwydd gwaith.

27. Bydd y newidiadau hyn i'r WCA yn berthnasol i geisiadau newydd am ESA ac i hawlwyr UC. Bydd y newidiadau hyn i'r WCA yn berthnasol i geisiadau newydd am ESA ac i hawlwyr UC sy'n hysbysu cyflwr iechyd ac mae angen asesiad arnynt. Ni chaiff newidiadau i weithgareddau a disgrifyddion WCA eu gweithredu'n genedlaethol cyn 2025.

# Cefndir WCA a Sut y gwnaethom ymgynghori

**Cefndir WCA**

28. Dyluniwyd yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA) i asesu'r hyn y gall pobl ei wneud, nid yr hyn na allant ei wneud, ac i gefnogi mwy o bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i ddod o hyd i waith neu i symud yn agosach at y farchnad lafur. Fel y nodwyd gennym yn "Transforming Support: The Health and Disability White Paper", nid yw hyn yn digwydd yn ymarferol ac mae angen gwella'r system.

29. Canfuwyd fod gan gyfran gynyddol o hawlwyr benderfyniad LCWRA. Cafodd tua 740,000 o bobl benderfyniad WCA wedi'i gofnodi'n y flwyddyn galendr 2022, gyda bron i ddau o bob tri hawlydd a oedd wedi cael WCA yn cael LCWRA.[6] O'r rheini, roedd bron i 1 o bob 7 yn cael LCWRA yn seiliedig ar Risg Sylweddol pan mai bwriad y polisi yw ei gymhwyso mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Nid oes gan hawlwyr y canfyddir eu bod â LCWRA unrhyw ofynion i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith, i'w helpu i symud ymlaen i mewn i waith neu tuag at waith. O ganlyniad, maent yn colli allan ar y cymorth gwerthfawr sydd ar gael gan anogwyr gwaith mewn canolfannau gwaith a darpariaeth cyflogaeth.

30. Mae nifer y bobl sy'n dd-waith ac nad ydynt yn chwilio am swydd, neu sy'n economaidd anweithgar, oherwydd salwch a chyflyrau iechyd hirdymor yn 2.6 miliwn yn 2023. Mae hyn wedi cynyddu ers y pandemig.[7] Mae ychydig llai na miliwn o swyddi gwag yn y farchnad lafur, sy'n gwahardd twf economaidd.[8]

31. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi adrodd bod y gyfradd gymeradwyo am fudd-daliadau analluogrwydd wedi codi dros amser. Yn 2016-17, cymeradwywyd 55% o'r ceisiadau newydd am fudd-daliadau analluogrwydd. Yn 2022-23, cymeradwywyd 82% o geisiadau newydd. Pe bai'r gyfradd wedi aros ar lefelau 2016-17, byddai 670,000 yn llai o geisdiadau cymeradwy wedi bod rhwng 2017 a 2022.[9] Mae atgyfeiriadau WCA hefyd wedi cynyddu'n sylweddol. Dengys ffigurau OBR fod atgyfeiriadau fesul chwarter wedi cynyddu o 160,000 yn 2019-20 i 220,000 yn 2022-23.[10]

32. Mae'r Papur Gwyn Iechyd ac Anabledd yn nodi ein cynlluniau i ddeddfu ar gyfer cael gwared ar WCA. Yn y dyfodol bydd un asesiad swyddogaethol iechyd ac anabledd - yr

---

[6] Mae cyfrolau Asesiadau Gallu i Weithio ESA ac UC ar gael ar Stat-Xplore: https://stat-xplore.dwp.gov.uk

[7] Labour market overview, UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[8] Labour market overview, UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[9] https://obr.uk/frs/fiscal-risks-and-sustainability-july-2023/#chapter-1
[10] https://obr.uk/frs/fiscal-risks-and-sustainability-july-2023/#chapter-1

asesiad Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Mae hyn yn parhau i fod yn fwriad i ni. Fodd bynnag, gyda thua 740,000 o WCAs yn digwydd yn 2022, a chyda disgwyl i'r galw hwn barhau, ni allwn aros nes i'r diwygiadau hyn gael eu cyflwyno.

**Sut y Gwnaethom Ymgynghori**

33. Cyhoeddodd y Llywodraeth yr *Ymgynghoriad Gallu i Weithio: Gweithgareddau a Disgrifyddion* ar 5 Medi 2023. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref 2023.

34. Roeddem am sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael cyfle i gyfrannu eu barn. Gwnaethom gyhoeddi’r ymgynghoriad ar GOV.UK ac estyn allan at lawer o elusennau a sefydliadau am bobl anabl yn uniongyrchol i'w hannog i gyfrannu.

35. Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghoriad mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Roedd print safonol, Hawdd ei Ddarllen, Sain, Iaith Arwyddion Prydain, Cymraeg a dogfennau print bras ar gael ar GOV.UK. Gwnaethom gynnig copïau caled o'r print safonol, Hawdd ei Ddarllen, Braille, a fersiynau print bras. Roedd copi caled o ffeiliau sain a BSL ar gael ar CD. Mae'r fersiynau ar-lein ar gael yma: [Asesiad Gallu i Weithio: Gweithgareddau a disgrifyddion - GOV.UK (www.gov.uk)]

36. Cafodd yr ymatebwyr gyfle i ysgrifennu atom, anfon negeseuon e-bost, neu gwblhau ffurflen ar-lein.

37. Gwnaethom gynnal chwe digwyddiad cyhoeddus wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn Birmingham, Leeds, Caeredin, Caerdydd, yn ogystal â dau ddigwyddiad yn Llundain. Gwnaethom hefyd gynnal wyth digwyddiad cyhoeddus rhithwir a chefnogwyd digwyddiad ym Melffast gennym, a drefnwyd gan yr Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon. Gwyddom ei fod yn bwysig rhoi cyfle i gynifer o bobl â phosibl ymgysylltu â'r ymgynghoriad a chlywed eu barn am y newidiadau arfaethedig.

38. Gwnaethom sicrhau bod elusennau pobl anabl a sefydliadau eraill yn cael eu gwahodd i'r digwyddiadau a gynigiwn. Roedd hyn yn helpu'r grwpiau hynny i godi materion a rhoi adborth gan bobl anabl a chwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Rydym yn ddiolchgar am y mewnwelediad a'r profiad a rannodd y grwpiau hyn yn y digwyddiadau.

39. Roedd yn bwysig casglu dealltwriaeth meddygon a chlinigwyr eraill o'n cynigion. I gael hyn, buom yn trafod yr ymgynghoriad yn ein fforwm Meddygon teuluol DWP. Buom hefyd yn trafod y cynigion gyda grwpiau clinigol eraill a gyda darparwyr Asesu Iechyd.

40. Mae cyflogwyr yn hanfodol i'n huchelgais o weld mwy o bobl anabl mewn gwaith. Er mwyn deall eu safbwyntiau ar ein cynigion, cynhaliwyd pum sesiwn gyda grwpiau a fforymau cyflogwyr.

41. Yn ystod yr ymgynghoriad, cawsom 1,348 o ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein ac yn ysgrifenedig gan sefydliadau ac unigolion. Gwnaethom adolygu a dadansoddi'r ymatebion hyn wrth iddynt gael eu derbyn. Ystyriwyd pob ymateb ysgrifenedig yn ofalus ochr yn ochr â chyfraniadau gan fynychwyr ym mhob un o'n digwyddiadau cyhoeddus rhithwir ac wyneb yn wyneb.

42. Gwnaethom ddarllen a dadansoddi pob ymateb i ddeall barn pobl, opsiynau a fferfrir, ac awgrymiadau. Diolch i bawb a gyfrannodd, am ein helpu i ddatblygu ein cynigion. Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd wrth i ni fireinio a bwrw ymlaen â newidiadau.

# Beth ddywedasoch wrthym a'r newidiadau a wnawn

43. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn a ddywedwyd wrthym yn ystod yr ymgynghoriad, y newidiadau yr ydym yn bwriadu eu datblygu, a pham.

**Prif Themâu**

44. Rydym wedi ystyried yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gwrthwynebu unrhyw newidiadau i'r WCA. Dywedasoch wrthym:

- Bod pobl anabl yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol rhag dechrau gweithio. Dywedodd yr ymatebion, i lawer o bobl sydd â chyflyrau iechyd, nad yw'r newidiadau ym myd gwaith yn ddigonol i wneud newidiadau i asesu gallu i weithio.
- Y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y bobl sydd dan amodoldeb, ac mewn perygl o sancsiynau. Achosodd hyn i rai ymatebwyr ddangos rhywfaint o ddiffyg ymddiriedaeth yn y newidiadau arfaethedig.
- Y byddai cymorth cyflogaeth gwirfoddol pwrpasol o ansawdd y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i wella eu rhagolygon cyflogaeth.
- Bod cyfleoedd am swyddi gweithio gartref yn unig yn gyfyngedig, ac mae gwahaniaethau rhwng sectorau a lefelau sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at y swyddi hyn, a'r sectorau a'r swyddi y mae hawlwyr budd-dal yn manteisio arnynt amlaf. Mae gwahaniaethau daearyddol hefyd o ran argaeledd.
- Bod yn anhebygol os yw swydd o bell yn cael ei sicrhau, o fod yn swydd o bell yn gyfan gwbl a byddai angen elfen o deithio, er enghraifft i hyfforddiant, cyfarfodydd tîm a chyfweliadau.
- Bod oedi a phrinder mewn systemau DWP yn arafu neu'n atal pobl anabl rhag symud tuag at waith.
- Y byddai gwneud newidiadau i WCA yn lleihau cymorth ariannol i bobl anabl, sy'n peryglu dod â phobl i dlodi.
- Bod pryderon am newid WCA nawr pan gyhoeddwyd “Transforming Support: The Health and Disability White Paper" y bydd y WCA yn cael ei ddiddymu.

**Newidiadau i weithgareddau WCA**

45. Amlinellodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y materion sy'n wynebu pobl anabl a’r sawl sy’n cael budd-daliadau wrth gael mynediad at swyddi hybrid a gweithio gartref. Nododd yr ymatebion yn benodol y ffaith bod y swyddi hyn yn aml wedi'u crynhoi mewn swyddi a sectorau incwm uwch a all fod yn llai hygyrch neu'n addas i bobl anabl sy'n symud o fudd-daliadau i waith.

46. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a'r pryderon a godwyd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod byd gwaith wedi newid o'i gymharu â 2011 pan adolygwyd gweithgareddau a disgrifyddion WCA yn gynhwysfawr ddiwethaf. Er ein bod yn cydnabod nad yw pob swydd yn cynnig gwaith hybrid neu weithio gartref, mae tystiolaeth bod y cyfleoedd am waith hybrid a hyblyg yn well na phan adolygwyd gweithgareddau a disgrifyddion WCA ddiwethaf.

- Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, '*Characteristics of Homeworkers'*, er enghraifft, yn dangos bod cynnydd mawr wedi bod mewn gweithio gartref: dywedodd 40% o bobl iddynt weithio gartref ar ryw adeg yn ystod yr wythnos flaenorol yn y cyfnod rhwng 25 Ionawr a 5 Chwefror 2023.
- Mae'r un astudiaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod gweithwyr anabl wedi nodi lefelau tebyg o weithio gartref yn unig o'i gymharu â'r rhai heb anabledd (18% o weithwyr anabl o'i gymharu â 16% heb anabledd).
- Mae'r ONS hefyd yn dweud i 44% o oedolion sy'n gweithio weithio gartref yn gyfan gwbl neu o leiaf rhan o'r amser bob wythnos rhwng Medi 2022 a Ionawr 2023, o'i gymharu â dim ond 12% yn gweithio gartref trwy gydol 2019.
- Dywedodd 18% o weithwyr a oedd â chyflwr hirdymor am 12 mis neu fwy iddynt weithio gartref yn unig, o'i gymharu â 15% ar gyfer y rhai heb gyflwr hirdymor.[11]
- O'r tua 8 miliwn o swyddi a hysbysebwyd ar-lein dros y 6 mis diwethaf (mis Ebrill-Hydref 2023), roedd ychydig dros 20% naill gweithio'n bell neu'n hyblyg, o'i gymharu â llai na 4% dros yr un cyfnod amser yn 2016.[12]
- Rydym yn gwybod bod hyblygrwydd yn hanfodol er mwyn i bobl anabl gael mynediad at gyfleoedd gwaith. Mae ymchwil CIPD yn[13] dangos bod gan dros hanner yr holl weithwyr fynediad at weithio'n hyblyg, gydag amser fflecsi a gweithio gartref yn benodol yn cynyddu ers 2011. Ochr yn ochr â hyn, mae bron i 570,000 yn fwy o weithwyr rhan-amser o'i gymharu â 2011 ac rydym yn gwybod bod pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser.
- Amlygodd ymatebion i'r ymgynghoriad bod heriau'n parhau o ran cael mynediad at swyddi hyblyg ac nad yw rhai cyflogwyr yn cynnig addasiadau rhesymol. Rydym yn cymryd camau'n y gyfraith i wneud gweithio'n hyblyg yn fwy hygyrch. O 2024, bydd miliynau o weithwyr yn ennill yr hawl i ofyn am weithio'n hyblyg o'r diwrnod cyntaf (trwy ddileu'r cyfnod cymhwyso 26 wythnos presennol) mewn swydd newydd. Rydym am gefnogi pobl anabl i fanteisio ar y cyfleoedd newydd hyn.
- Er bod ymatebwyr wedi herio argaeledd swyddi addas, cyfeiriodd tua 170,000 o swyddi a restrir ar wefan Adzuna UK ym mis Tachwedd 2023 at weithio gartref. Rhestrwyd tua 67,000 o'r rhain yn rhan-amser. Mae hyn yn cynnwys swyddi ym maes gweinyddu, gwasanaethau cwsmeriaid neu gofnodi data a allai fod yn addas i'r rhai a allai fod â phrofiad gwaith cyfyngedig.

47. Yn ogystal â'r dystiolaeth hon, rydym hefyd wedi cynyddu ein cynnig cymorth i helpu'r rhai sy'n gallu gweithio, i symud tuag at gyflogaeth, ac yn y pen draw symud mewn i gyflogaeth. Yng Nghyllideb y Gwanwyn gwnaethom gyhoeddi nuddsoddiad sylweddol

[11] Characteristics of homeworkers, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[12] Gan ddefnyddio data gan Adzuna roedd yr 8,137,838 o swyddi a hysbysebwyd ar-lein dros y 6 mis diwethaf (Ebr-Hydref), 20.4% naill ai'n bell neu'n hyblyg, o'i gymharu â 3.4% dros yr un cyfnod amser yn 2016.
[13] https://www.cipd.org/uk/knowledge/reports/flexible-working-trends/

mewn rhaglenni cyflogaeth, gan gynnwys Cymorth Cynhywsol a'r Rhaglen Partneriaethau *WorkWell*. Daeth hyn ar ben £150m o gyllid a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ionawr 2023 i gynyddu cymorth iechyd meddwl. Yn Natganiad yr Hydref mae'r Llywodraeth yn mynd ymhellach. Bydd therapïau siarad y GIG yn cael eu hehangu fel y bydd 384,000 o bobl ychwanegol yn elwa dros y pum mlynedd nesaf. Bydd Lleoliadau a Chymorth Unigol yn cael eu hehangu i helpu 100,000 o bobl ychwanegol sydd ag afiechyd meddwl difrifol i ddod o hyd i swydd a'i chadw yn yr un cyfnod. Bydd Cymorth Cynhwysol yng Nghymru a Lloegr yn paru 100,000 o bobl y flwyddyn â swyddi gwag presennol a'u cefnogi yn eu rôl newydd.

48. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r cynnydd sylweddol sydd wedi digwydd ers i weithgareddau a disgrifyddion WCA gael eu hadolygu'n llawn ddiwethaf yn 2011. Mae'n iawn bod WCA yn adlewyrchu'r newidiadau hyn fel nad yw pobl yn cael eu gwahardd yn ddiangen o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, a'r manteision ehangach y mae gwaith yn eu cynnig o ran sicrwydd ariannol ac iechyd a lles corfforol a meddyliol.

**Symudedd**

49. **Gwnaethom ofyn i chi ystyried:**
    - P'un a ddylid dileu'r gweithgaredd Symudedd (LCWRA a LCW) yn gyfan gwbl
    - P'un a ddylai'r disgrifydd Symundedd LCWRA gael ei leihau i 20 metr o 50 metr
    - P'un a ddylid lleihau'r pwyntiau a ddyfernir am disgrifyddion Symudedd LCW

50. **Dywedasoch wrthym:**
    - Bod yr holl waith yn gofyn am rywfaint o symudedd i ryw raddau, a all achosi anghysur neu flinder ac, os caiff ei wneud i weithio, gall hyn gynyddu straen neu waethygu cyflwr unigolyn.
    - Mae gallu pobl i symud amrywio o ddydd i ddydd, a hyd yn oed o fewn yr un diwrnod mewn rhai achosion, sy'n cynyddu eu hanghenion gofal, fel gofyn am gymorth gofalwr.
    - Nid yw gweithio o bell neu hybrid ar gael yn eang i hawlwyr sydd ag anawsterau symud ac, fel arfer, nid yw cyflogwyr yn cynnwys pobl sydd â phroblemau symud, gan wneud gwaith yn y gweithle yn fwy heriol.
    - Roedd rhywfaint o gydnabyddiaeth y gellir gwneud addasiadau yn y gweithle i gefnogi hawlwyr gyda chyfyngiadau o ran symudedd. Fodd bynnag, mae hyn yn gyfyngedig ac mae angen i gyflogwyr wneud mwy.
    - Ni ddylid dileu'r gweithgaredd Symudedd o'r asesiad ac mae'n rhan hanfodol o;r WCA.
    - Ni ddylid lleihau pwyntiau ar gyfer y gweithgaredd hwn gan y byddai gwneud hynny'n tanseilio'r frwydr y mae pobl yn ei hwynebu sydd ag anableddau symudedd a chyflyrau iechyd.
    - Roedd yn well newid y pellter ar gyfer Symud i 20 metr o 50 metr i'r opsiynau eraill, er mai cyfran fach o bobl yn unig oedd yn cefnogi'r cynnig hwn. Roedd yr ymatebion a gytunodd â hyn yn ystyried alinio'r WCA yn unol â PIP fel newid

cadarnhaol tuag at un asesiad yn y blynyddoedd i ddod, fel y nodir yn y Papur Gwyn Iechyd ac Anabledd.

- Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo gan fod DWP eisoes wedi ymrwymo i ddiddymu WCA, na fyddai unrhyw newid nawr i alinio â PIP yn cael ei groesawu.

51. Byddwn yn dileu'r gweithgaredd Symuededd LCWRA oherwydd bod hyblygrwydd newydd yn y farchnad lafur yn golygu y gall llawer o bobl sydd â chyfyngiadau symud ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd wedi'i deilwra a'i bersonoli sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r cymorth cywir. Rydym yn cydnabod bod yr ymatebion a amlygwyd wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, bu gwelliannau yn y gweithle modern sy'n golygu nad yw'r rhwystrau a oedd yn bodoli pan adolygwyd gweithgareddau WCA ddiwethaf yn gynhwysfawr yn 2011 bellach yn anorchfygol. Mae'n iawn i ni ddiweddaru'r WCA i adlewyrchu'r newid hwnnw fel y gall mwy o bobl anabl gael gafael ar gymorth i symud yn agosach at gyflogaeth a'r buddion sy'n dod yn sgil sicrwydd ariannol a lles corfforol a meddyliol.

52. Rydym yn cydnabod na fydd pawb sydd â chyfyngiadau symud yn gallu ymgymryd â gwaith, ac na fydd gweithio o bell neu hyblyg bob amser yn goresgyn y rhwystrau i hawlwyr sydd â chyflyrau mwy difrifol. Er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â'r cyfyngiadau symud mwyaf arwyddocaol yn dal i gael eu diogelu, byddwn yn cadw rheoliadau Risg Sylweddol LCWRA ar gyfer iechyd corfforol. Mae hyn yn golygu, lle byddai paratoi tuag at waith yn arwain at ddirywiad yn iechyd corfforol hawlydd, y byddent yn dal i gael eu hasesu fel rhai sydd â LCWRA ac yn cael y taliad ychwanegol ariannol. Ar gyfer y grŵp hwn byddai unrhyw weithgaredd paratoi tuag at waith sy'n cael ei wneud yn wirfoddol.

53. Byddwn yn cadw'r gweithgaredd Symudedd LWC ac ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r pwyntiau neu'r disgrifyddion ynddo. Trwy gadw'r pwyntiau a ddyfarnwyd ar gyfer disgrifyddion Symudedd LCW, darganfyddir bod gan hawlwyr sy'n bodloni'r disgrifydd uchaf (15 pwynt), ac nad ydynt mewn perygl o ddirywiad yn eu hiechyd corfforol. Ni ddisgwylir iddynt chwilio am waith ond cânt eu cefnogi i ymgymryd â gweithgaredd paratoi gwaith priodol gan anogwr gwaith a fydd yn gweithio gyda'r hawlydd i nodi'r hyn y gallant ei wneud yn ddiogel ac yn raddol i symud tuag at waith. Ni fyddant yn derbyn yr hawl ychwanegol i fudd-dal LCWRA y mae hawlwyr sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd â LCWRA yn ei gael ar hyn o bryd.

54. Rydym am sicrhau bod yr WCA yn canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud, ac yn targedu cymorth cyflogaeth yn effeithiol. Mae cyfleoedd newydd i weithio gartref, hawliau i ofyn am weithio'n hyblyg a gwell dealltwriaeth cyflogwyr o anghenion hygyrchedd pobl anabl yn golygu y gallai mwy o bobl â chyfyngiadau symud elwa o ryw fath o weithgaredd wedi'i deilwra a'i bersonoli yn y gwaith, gyda'r cymorth cywir.

### Absenoldeb neu golli rheolaeth coluddyn / bledren (Ymataliaeth)

55. **Gwnaethom ofyn i chi ystyried:**
    - P'un a ddylid dileu'r gweithgaredd Ymatlaiaeth (LCWRA ac LCW).
    - P'un a ddylid newid disgrifydd Ymataliaeth LCWRA o anymataliaeth 'wythnosol' i anymataliaeth 'ddyddiol'.
    - P'un a ddylid lleihau'r pwyntiau a ddyfernir ar gyfer disgrifyddion Ymataliaeth LCW.

56. **Dywedasoch wrthym:**
    - Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebion na ddylid newid y gweithgaredd ac y byddai gwneud hynny'n cynyddu'r straen neu'n gwaethygu cyflwr pobl sydd â'r cyflyrau hyn.

- Dywedodd ymatebwyr fod problemau ymataliaeth yn achosi anurddas, embaras ac effeithiau iechyd meddwl gan wneud i unrhyw waith fod yn heriol i bobl â'r anawsterau hyn.
- Amlygodd yr ymatebion y byddai angen amser ar bobl i lanhau/newid yn ystod y diwrnod gwaith a arweiniodd ymatebwyr i gredu na fyddai cyflogwyr yn gallu cynnig yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar y bobl hyn.
- Dywedasant nad yw gweithio gartref yn lleihau effaith cyflyrau ymataliaeth, ac mae eu heffeithiau'n aml yn anrhagweladwy. Awgrymodd ymatebwyr y byddai'r broblem yn gudd, ond yn dal i fod yn bresennol.
- Roedd nifer fach o blaid newid disgrifydd Ymataliaeth o 'wythnosol' i 'bob dydd'. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y gred y gellir rheoli'r amodau hyn, gyda'r cymorth cywir.
- Fodd bynnag, pwysleisiodd nifer fach na fyddai newid disgrifydd ymataliaeth o 'wythnosol' i 'bob dydd' yn gwneud unrhyw wahaniaeth gan fod effeithiau seicolegol bod ag anymataliaeth bob amser yn bresennol, waeth pa mor aml y mae'n digwydd.

**Ein hymateb:**

57. Rydym yn derbyn yr ymatebion a gawsom ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r gweithgaredd hwn. Rydym yn derbyn y sylwadau a dderbyniwyd, sydd wedi pwysleisio sut mae anymataliaeth yn effeithio'n ddifrifol ar urddas a lles meddyliol pobl. Rydym wedi ystyried adborth sy'n dweud wrthym ei bod yn anodd rheoli natur anrhagweladwy materion ymataliaeth, hyd yn oed gyda'r opsiwn o weithio hyblyg neu hybrid. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gweithgaredd LCWRA neu LCW neu ddisgrifyddion ar gyfer Ymataliaeth.

**Ymdopi ag Ymgysylltu Cymdeithasol oherwydd nam gwybyddol neu anhwylder meddwl (Ymgysylltu Cymdeithasol)**

58. **Gwnaethoch ofyn i chi ystyried:**
    - P'un a ddylid dileu'r gweithgaredd Ymgysylltu Cymdeithasol (LCWRA a LCW).
    - P'un a ddylid lleihau'r pwyntiau a ddyfernir ar gyfer disgrifyddion Ymgysylltu Cymdeithasol LCW.

59. **Dywedasoch wrthym:**
    - Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebion na ddylid newid y gweithgaredd hwn ac y byddai effaith gwneud hynny yn arwain at straen ac y byddai'n gwaethygu cyflwr unigolyn.
    - Mae'r holl waith, hyd yn oed gwaith o bell, yn cynnwys ymgysylltu cymdeithasol i ryw raddau, fel galwadau fideo a sgyrsiau ffôn.
    - Byddai gwneud newidiadau i'r gweithgaredd Ymgysylltu Cymdeithasol yn effeithio ar bobl agored i niwed ac yn achosi perygl o waethygu cyflyrau iechyd meddwl a gallai arwain at fwy o bwysau ar rwydwaith gofal unigolyn fel eu teulu.

**Ein hymateb:**

60. Rydym yn cydnabod y gall anawsterau gydag ymgysylltu cymdeithasol fod yn rhwystr sylweddol i ymgysylltu â gwaith neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith. Rydym

wedi gwrando ar adborth na fydd gweithio gartref a hybrid efallai yn goresgyn y rhwystrau hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn gofyn i bobl ymgysylltu ag eraill. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gweithgaredd LCWRA neu LCW Ymgysylltu Cymdeithasol neu ddisgrifyddion.

**Symud o gwmpas**

61. **Gwnaethom ofyn i chi ystyried**:
    - P'un a ddylid dileu'r gweithgaredd Symud o Gwmpas.
    - P'un a ddylid lleihau'r pwyntiau a ddyfernir ar gyfer disgrifyddion LCW Symud o Gwmpas.

62. **Dywedasoch wrthym:**
    - Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebion na ddylid newid y gweithgaredd hwn ac, os gwneir newidiadau, gallai hyn arwain at fwy o straen a chyflwr gwaeth.
    - Mae'r holl waith yn golygu symud o gwmpas i ryw raddau, fel ar gyfer sesiynau hyfforddi, cyfweliadau, neu gyfarfodydd tîm.
    - Mae gwaith o bell fel arfer yn cyd-fynd â swyddi cymwys iawn, â chyflog uchel, ac nid yw'n cyd-fynd â'r swyddi lefel mynediad a chyflogau is y mae hawlwyr budd-dal fel arfer yn chwilio amdanynt.
    - Mae diffyg help i bobl sydd angen cymorth i symud o gwmpas o fewn cynnig cymorth cyfredol DWP, gyda heriau trafnidiaeth gyhoeddus ac anawsterau gyda Mynediad at Waith yn cael eu hamlygu. Tynnodd yr ymatebwyr sylw, pe bai newidiadau'n mynd yn eu blaen, y byddai hyn yn cynyddu'r ddibyniaeth ar ofalwyr.
    - Fodd bynnag, mae mwy o ffyrdd i gyflogwyr gefnogi pobl yn y maes hwn, er nad yw pob cyflogwr yn gallu gwneud hynny.
    - Awgrymodd nifer fach o ymatebion y gallai newid i'r disgrifydd hwn arwain at fwy o hyblygrwydd a lles i'r hawlwyr y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt.

**Ein hymateb:**

63. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae anawsterau gyda symud o gwmpas yn achosi wrth fynd ati i ymgysylltu â gwaith. Rydym yn cynnal y disgrifydd sgôr uchaf felly mae'r rhai sydd â'r cyfyngiadau mwyaf difrifol yn parhau i gael LCW wrth gael eu cefnogi gyda gweithgaredd paratoi tuag at waith priodol a fydd yn eu symud yn agosach at waith yn y dyfodol.

64. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno y dylai'r gweithgaredd hwn aros yr un fath. Mae'r amgylchedd gwaith wedi newid ers i'r gweithgareddau a'r disgrifyddion WCA gael eu hadolygu'n gynhwysfawr ddiwethaf yn 2011. Mae mwy o hyblygrwydd yn y gweithle yn golygu y gall rhai pobl sydd â chyfyngiadau o ran symud o gwmpas wneud gwaith priodol, gyda'r gefnogaeth gywir. Mae tystiolaeth bod gweithio hyblyg ar gael yn llawer haws heddiw ac er ein bod yn cydnabod na allai pob rôl fod yn addas, mae tystiolaeth bod rolau y gellid eu cyflawni.

65. Mae gan gyflogwyr well dealltwriaeth hefyd o anghenion hygyrchedd pobl anabl, a phobl â chyflyrau iechyd, nag a fu'n digwydd o'r blaen. Yn ogystal, bu cryfhau hawliau i weithwyr a'r rhwymedigaethau ar gyflogwyr.

66. Mae'r newid yn y mathau o rolau sydd ar gael yn golygu y bydd llai o angen i unigolyn gyrraedd lle penodol, boed yn gyfarwydd neu'n anghyfarwydd. Mae hyn yn golygu bod llai o rwystr i allu gweithio i rai pobl. Felly, rydym yn newid y pwyntiau am y disgrifyddion LCW sy'n weddill. Mae hyn er mwyn adlewyrchu effaith mwy o gyfleoedd i weithio gartref, hawliau i ofyn am weithio'n hyblyg a gwell dealltwriaeth cyflogwyr o anghenion hygyrchedd pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd.

**Risg sylweddol ar gyfer LCWRA**

67. **Gwnaethom ofyn i chi ystyried:**
    - P'un a ddylid newid y diffiniad o Risg Sylweddol am feini prawf LCWRA i adlewyrchu na fyddai Risg Sylweddol yn berthnasol lle gallai rhywun gymryd rhan mewn gweithgaredd paratoi tuag at waith wedi'i deilwra. Gallai hyn gynnwys diffinio lefel ofynnol o weithgaredd paratoi tuag at waith ac ystyried addasiadau rhesymol posibl.
    - A ddylid dileu'r Risg Sylweddol am achosion LCWRA.

68. **Dywedasoch wrthym:**
    - Bod Risg Sylweddol LCWRA yn rhwyd ddiogelwch hanfodol i bobl agored i niwed a byddai ei dileu yn cynyddu'r siawns o niwed difrifol neu farwolaeth trwy hunanladdiad.
    - Y byddai dileu Risg Sylweddol yn effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl hawlwyr ac yn achosi risg o amlygu sancsiynau. Byddai hyn yn arwain at wahaniaethu a thlodi.
    - Y byddai'r effeithiau negyddol ar bobl yn y grŵp hwn yn achosi straen pellach ar wasanaethau iechyd meddwl GIG a chanolfannau gwaith.
    - Y gallai cymorth ychwanegol helpu pobl sydd â Risg Sylweddol, ond mae angen ei deilwra i'r unigolyn a bod yn wirfoddol. Cyfeiriodd yr ymatebion yn gryf i ffwrdd o'r model 'un ateb sy'n addas i bawb''.
    - Awgrymodd llawer o ymatebion na fydd y grŵp hwn byth yn debygol o allu gweithio ac na fyddai eu hamlygu i amodoldeb yn gweld mwy o bobl mewn cyflogaeth.

**Ein hymateb:**

69. O ran Risg Sylweddol LCWRA, mynegodd ymatebion i'r ymgynghoriad bryder dwfn am risgiau niwed ac o bosibl risg uwch o farwolaeth trwy hunanladdiad os caiff rhwyd ddiogelwch Risg Sylweddol LCWRA ei dileu. Gwnaethom wrando ar y pryderon hyn ac yn cytuno y dylid cadw risg LCWRA i'r rhai mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, rydym yn credu bod angen gwneud newidiadau o hyd i sicrhau bod Risg Sylweddol LCWRA yn cael ei chymhwyso'n briodol, felly nid yw hawlwyr yn cael eu gwahardd yn ddiangen o gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Nid ydym yn credu ei bod yn iawn bod cymaint o bobl yn cael eu rhoi yn y grŵp LCWRA ac felly ni chânt unrhyw help gan DWP. Gwyddom fod y rhan fwyaf o bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus ym dymuno gweithio, a chyda'r cymorth cywir, y gallant wneud hynny. Rydym am sicrhau bod y rhai sy'n gallu ymgysylltu'n ddiogel yn cael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl i'w gael fel y gallant symud tuag at waith os ydynt yn gallu.

70. Bwriad y meini prawf Risg Sylweddol oedd darparu rhwyd ddiogelwch pan fo tystiolaeth y byddai risg sylweddol i iechyd meddwl neu gorfforol pe na bai gan hawlydd LCW neu LCWRA. Bwriad y polisi gwreiddiol am Risg Sylweddol oedd iddo gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Fodd bynnag, gyda bron i 1 o bob 7 cais newydd wedi cael LCWRA o dan Risg Sylweddol yn 2022, mae hyn wedi mynd y tu hwnt i'r trothwy hwnnw.

71. Byddwn yn bwrw ymlaen â newidiadau sy'n cadw Risg Sylweddol LCWRA fel rhwyd ddiogelwch i'r rhai sydd â'r cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol mwyaf difrifol, ond sy'n nodi'n glir pryd y dylai hyn fod yn berthnasol. Yn y ddogfen ymgynghori, gwnaethom archwilio diffinio isafswm lefel o weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith i gefnogi'r grŵp hwn. Ar ôl ystyried adborth o'r ymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi dewis yn hytrach i bwysleisio diogelu'r hawlwyr mwyaf agored i niwed y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod y rhai sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd ystyrlon yn ddiogel yn gallu symud tuag at waith gyda'r cymorth cywir.

72. Bydd y newid hwn yn cynnwys diwygio rheoliadau i bennu'r amgylchiadau a'r cyflyrau iechyd meddwl difrifol y dylai risg LCWRA fod yn berthnasol iddynt. Bydd hyn yn cynnwys diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed, fel pobl mewn argyfwng o dan dimau triniaeth gartref a'r rhai sydd â salwch seicotig actif. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chlinigwyr i ddiffinio'r meini prawf a'r dystiolaeth feddygol sydd ei hangen gan hawlwyr a phobl sy'n ymwneud â'u gofal, er mwyn sicrhau bod y broses yn ddiogel, yn deg ac yn glir.

73. Yn hytrach, bydd hawlwyr nad oes ganddynt Risg Sylweddol dan LCWRA bellach yn dilyn y newidiadau yn dod o dan y darpariaethau Risg Sylweddol. Bydd y darpariaethau hyn yn cydnabod y byddai risg pe bai'r hawlydd yn gweithio, ond y byddent yn gallu ymgymryd â rhai gweithgareddau paratoi tuag at waith yn ddiogel. Bydd hyn yn golygu nad oes angen iddynt chwilio am waith ond byddant yn cael eu cefnogi i ymgymryd â gweithgaredd paratoi tuag atwaith priodol sy'n eu helpu i symud yn agosach at waith yn y dyfodol. Bydd y rhai y mae'r newid yn effeithio arnynt yn cael cymorth personol, wedi'i deilwra i sicrhau bod unrhyw weithgaredd paratoi tuag at waith yn cyd-fynd â'u hanghenion, fel eu bod yn gallu rheoli eu cyflwr yn effeithiol. Gwyddom y gall gweithgarwch ystyrlon fod o fudd i nifer fawr o bobl i'w hiechyd a'u lles cyffredinol.

74. Byddwn yn asesu cymhwysedd am Risg Sylweddol heb i hawlwyr orfod cymryd rhan mewn asesiad gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ac felly osgoi rhywfaint o'r straen a'r pryder i hawlwyr bregus yn y broses asesu. Bydd sefyllfa pobl y canfyddir eu bod yn cael LCWRA drwy'r rheolau Risg Sylweddol newydd yn cael eu hailasesu ar yr adeg briodol i weld a yw eu cyflwr wedi newid.

**Sut y gallwn ddarparu'r cymorth cywir tuag at waith ac yn y gwaith**

75. Roedd yr ymatebion yn awgrymu nifer o ffyrdd i wella'r cymorth i bobl anabl wrth symud tuag at waith.

- Roedd rhai yn teimlo y byddai gweithgareddau gwirfoddol, yn gysylltiedig â gwaith dan arweiniad hawlwyr, yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol, ac y dylai DWP greu system i ennyn brwdfrydedd hawlwyr.

- Roedd rhai ymatebwyr eisiau mwy o hyfforddiant yn y ganolfan gwaith i helpu pobl i ddatblygu sgiliau i weithio gartref, er mwyn helpu pobl i symud i swyddi sy'n cynnig gwaith o bell. Roedd yr ymatebion yn awgrymu amrywiaeth o gymorth fel cyrsiau addysgol a sesiynau magu hyder.
- Gwell hyfforddiant i anogwyr gwaith, er mwyn galluogi cymorth o ansawdd uwch i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd.
- Mwy o gysylltiadau â thîm meddygol yr hawliydd i sicrhau bod DWP yn cynnig gweithgareddau paratoi gwaith amserol a phriodol.
- Gwella sut mae'r gwasanaeth Dod o hyd i Swydd DWP yn gweithio, gan gynnwys nodwedd chwiliad gwell i alluogi pobl i ganfod gwaith o bell neu hyblyg yn haws.
- Roedd eraill eisiau gweld mwy o gyflogwyr yn hyrwyddo addasiadau rhesymol a galluogi sgyrsiau am anabledd.
- Trwy sgyrsiau gyda chyflogwyr, mae'n amlwg bod angen cynnig y cymorth cywir i unigolion i lwyddo mewn gwaith.

**Cynnig Cymorth Cyflogaeth ac Iechyd**

76. Mae gan y Llywodraeth eisoes ystod eang o fentrau i gefnogi pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd i ddechrau, aros a llwyddo mewn gwaith. Mae cymorth ar gael drwy ganolfannau gwaith yn ogystal â thrwy bartneriaid i helpu pobl i baratoi am waith a dod o hyd iddo. Mae gennym hefyd gymorth ar gael pan fydd rhywun yn dechrau gweithio, fel grantiau Mynediad at Waith sy'n helpu tuag at gostau ychwanegol gweithio y tu hwnt i addasiadau rhesymol safonol.

77. Yn allweddol, mae'r cynnig hwn yn cynnwys gwaith i gydlynu systemau cyflogaeth ac iechyd ymhellach fel Cyngor Cyflogaeth mewn therapïau siarad y GIG, sy'n cyfuno triniaeth seicolegol a chymorth cyflogaeth i bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl a'r rhaglen IPSPC, model Cyflogaeth â Chymorth (lle, hyfforddi a chynnal) a ddarperir mewn lleoliadau iechyd, wedi'i anelu at boblsydd  â chyflyrau iechyd corfforol neu iechyd meddwl cyffredinol i'w cefnogi i gael swyddi â thâl yn y farchnad lafur agored.

78. Yng Nghyllideb y Gwanwyn, gwnaethom gyhoeddi y byddwn yn treialu'r Rhaglen Partneriaethau *WorkWell* dan arweiniad lleol i ddarparu cymorth integredig gwaith ac iechyd i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd. Gwnaethom hefyd gyhoeddi y byddwn yn cyflwyno Cymorth Cyffredinol, rhaglen gyflogaeth newydd â chymorth i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yng Nghymru a Lloegr, gan baru cyfranogwyr â swyddi marchnad agored ac ariannu cymorth a hyfforddiant – gan adeiladu ar IPSPC.

79. Yn Natganiad yr Hydref mae'r Llywodraeth yn mynd ymhellach. Bydd therapïau siarad y GIG yn cael eu hehangu fel y bydd 384,000 o bobl ychwanegol yn elwa dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y model Lleoliad a Chymorth unigol o gyflogaeth â chymorth sydd wedi'i hymgorffori mewn timau iechyd meddwl cymunedol yn cael ei ehangu i helpu 100,000 yn ychwanegol dros y cyfnod hwn. Bydd Cymorth Cynhwysol yng Nghymru a Lloegr yn paru 100,000 o bobl y flwyddyn â swyddi gwag presennol a'u cefnogi yn eu rôl newydd.

80. Byddwn yn adeiladu ar y cynnig cymorth presennol ac yn defnyddio ein sylfaen dystiolaeth i sicrhau ein bod yn cynnig y math cywir o gymorth i'r rhai yr effeithir arnynt gan y newidiadau hyn y gofynnir iddynt nawr gymryd camau i baratoi am waith. Felly,

byddwn yn parhau i brofi'r Drafodaeth Cyflogaeth ac Iechyd, yr ydym wedi'i hehangu'n ddiweddar i 13 o safleoedd ledled Cymru a Lloegr.

# Sut rydym yn bwriadu gweithredu'r newidiadau hyn

81. Bydd newidiadau i weithgareddau a disgrifyddion WCA yn cael eu gweithredu'n genedlaethol, ddim yn gynharach na 2025.

82. Rydym am i hawlwyr sydd eisoes wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â LCWRA allu ymgysylltu â chymorth i symud tuag at waith heb ofni ailasesu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw un sy'n cael asesiad LCWRA ar hyn o bryd yn wynebu ailasesiad WCA, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau eithriadol. Bydd hyn i bob pwrpas yn dileu'r WCA ar gyfer y grŵp hwn, gan gyflwyno elfen allweddol o'n cynigion Papur Gwyn Iechyd ac Anabledd ac yn rhoi'r hyder i bobl roi cynnig ar waith.

83. Ar ôl gweithredu'r newidiadau hyn, dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn y bydd ailasesiadau i bobl sydd â LCWRA yn digwydd, sef:
    Pan fydd hawlydd yn rhoi am newid amgylchiadau yn ei gyflwr iechyd;
    - Os dyfarnwyd LCWRA i hawlydd am risg beichiogrwydd, neu driniaeth canser lle mae disgwyl i'r prognosis am adferiad fod yn fyrdymor;
    - Os canfuwyd fod gan hawlydd LCWRA o dan y darpariaethau risg newydd; ac
    - Mewn achos amheuaeth o dwyll.

84. Byddwn yn cyflwyno'r Gwarant Cyfle i Weithio, cynnig newydd i hawlwyr LCWRA presennol i'w helpu eu cefnogi i mewn i waith. Bydd y warant hon yn:

    - **Gwneud ymrwymiad i beidio ag ailasesu'r grŵp hwn.** Bydd hyn yn dileu'r risg ariannol y mae llawer o hawlwyr wedi dweud wrthym ei fod yn rhwystr iddynt geisio gweithio.
    - **Dileu un o'r prif rwystrau i roi cynnig ar waith.** Bydd hyn yn rhoi'r hyder i bobl fanteisio ar y cymhellion ariannol hael yng Nghredyd Cynhwysol, Lwfans Gwaith, tapr a'r rheolau ail wneud-cais o fewn chwe mis , a'r rheolau gwaith a ganiateir yn ESA.
    - **Darparu pecyn newydd sylweddol o gymorth cyflogaeth ac iechyd.** Mae hyn yn cynnwys ein Rhaglen Partneriaethau WorkWell a fydd yn darparu gwaith integredig a chymorth iechyd i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, a Chymorth Cynhywsol sy'n rhaglen gyflogaeth newydd â chymorth i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yng Nghymru a Lloegr.

85. O 2025 ymlaen, byddwn yn dechrau defnyddio'r termau 'Paratoi tuag at Waith' yn hytrach na 'LCW', a bydd 'Grŵp Iechyd' yn disodli 'LCWRA'. Mae dweud wrth rywun bod

ganddynt Allu i Weithio Cyfyngedig neu os ydynt yn y grŵp Gallu cyfyngedig i weithio a gweithgareddau sy’n gysylltiedig â gwaith (LCWRA) yn canolbwyntio ar yr hyn na all person ei wneud ac nid yw'n cefnogi hawlwyr i ymgysylltu â gwaith neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith.

86. Gwnaeth y Papur Gwyn nodi ein cynigion hirdymor i gael gwared ar WCA a chyflwyno elfen iechyd UC newydd, drwy ddefnyddio'r asesiad PIP fel asesiad gweithredol iechyd ac anabledd sengl. Bydd y diwygiadau hynny'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, a dyna pam rydym wedi nodi'r cynigion hyn heddiw i gyflwyno newidiadau y gellir eu cyflawni'n gyflymach. Rydym yn gwybod bod WCA yn gweithredu fel anghymhelliad ariannol i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd sydd am roi cynnig ar waith. Mae pobl yn ofni os ydynt yn ceisio gweithio ac nad yw pethau’n gweithio allan, maent mewn perygl o golli eu cymorth ariannol ychwanegol ar ôl ailasesu. Mae'r ymrwymiad na fydd unrhyw un sydd â phenderfyniad LCWRA presennol heddiw yn cael ei ailasesu, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, yn golygu y gallant geisio gweithio heb ofni colli eu cymorth ariannol LCWRA.

E03016885

I978-1-5286-4567-6